

## **DPP hunangyfeiriedig – canllawiau fformat i gofrestreion**

Mae chwe fformat gwahanol ar gyfer DPP hunangyfeiriedig. Sef:

- Grwpiau adolygu gan gymheiriaid a arweinir gan gofrestreion
- Dysgu ffurfiol
- Dysgu o Bell
- Dysgu seiliedig ar waith
- Dysgu academaidd
- Gweithgareddau proffesiynol

Nid yw'r GOC yn gallu rhoi arweiniad penodol i chi ynghylch pa fformat y mae'r DPP yr ydych yn ymgymryd ag ef yn perthyn iddo. Eich penderfyniad chi ydy hyn. Gall y disgrifiadau isod eich helpu i wneud eich penderfyniad.

### **Grwpiau adolygu gan gymheiriaid a arweinir gan gofrestreion**

Mae hon yn drafodaeth am senarios neu achosion sy'n seiliedig ar ymarfer ymysg cymheiriaid. Gall optometryddion ac optegwyr cyflenwi fod yn gymheiriaid. Os ydych chi'n gofrestrai arbenigol, gallwch chi gwblhau adolygiad gan gymheiriaid gyda'ch cydweithwyr arbenigol a chynnwys y maes arbenigedd er mwyn i hyn gyfrif at eich gofyniad. Gall optegwyr lensys cyffwrdd hefyd gynnal eu hadolygiad gan gymheiriaid gydag optometryddion.

### **Dysgu ffurfiol**

Mae'r fformat hwn ar gyfer dysgu strwythuredig lle byddwch yn ymwybodol o'r pwnc neu'r thema ymlaen llaw, ac fel arfer caiff ei gwblhau gydag eraill. Mae'r fformatau'n cynnwys darlithoedd, seminarau, gweminarau, gweithdai trafod, gweithdai sgiliau, profion adnabyddiaeth gweledol, neu gynadleddau. Gall y rhain fod wyneb yn wyneb neu ar-lein.

### **Dysgu o bell**

Mae'r fformat hwn yn golygu eich bod yn gweithio ar eich pen eich hun yn bennaf gan ddefnyddio deunyddiau dysgu sy'n gallu dod o amrywiaeth o gyfryngau. Gall hyn gynnwys adborth ffurfiol gan diwtor neu hunanasesiad o'r dysgu. Mae'r fformatau'n cynnwys darllen erthyglau sy'n seiliedig ar destun neu ymchwil.

### **Dysgu seiliedig ar waith**

Mae'r fformat hwn fel arfer yn deillio o brofiadau yn y gweithle. Mae'r fformatau'n cynnwys trafodaethau gyda chydweithwyr, cysgodi gwaith, dysgu o brofiadau yn y gwaith, hyfforddi eraill yn y gweithle, ymarfer myfyriol ar sail achosion

### **Dysgu academaidd**

Mae'r fformat hwn yn cynnwys dysgu fel rhan o gwrs, modiwl neu gymhwyster academaidd neu broffesiynol achrededig, cwblhau addysg ffurfiol neu bellach, cynnal ymchwil, ysgrifennu papurau neu erthyglau academaidd.

### **Gweithgareddau proffesiynol**

Mae'r fformat hwn fel arfer yn golygu hybu neu hyrwyddo'r proffesiwn a'i weithgareddau. Mae'r fformatau'n cynnwys ysgrifennu DPP, arholi neu oruchwylio myfyrwyr, mentora,

darlithio, gwirfoddoli yn y sector optegol, hyrwyddo'r proffesiwn neu iechyd llygaid, fel cyflwyniadau i grŵp cyhoeddus, ysgol neu gynrychiolaeth mewn ffair gyrfaoedd.

DPP hunangyfeiriedig – canllawiau fformat i gofrestreion  
MyCPD 2022-2024